e - gylchgrawn Addysg Grefyddol

# Geirfa Allweddol

| | |
|---|---|
| **Alpha** | cwrs sy'n helpu pobl sy'n gwybod fawr ddim am y Beibl a'r ffydd Gristnogol i ddysgu am y pethau sylfaenol fel er enghraifft, Pam ddylwn i ddarllen y Beibl? Beth ydy'r Ysbryd Glân? Fel arfer bydd pobl yn cyfarfod i gael pryd o fwyd gyda'i gilydd cyn edrych ar fideo sy'n egluro'r ffydd mewn ffordd syml a bywiog, a chael trafodaeth. Mae'r cwrs yn para am nifer o wythnosau. Mae'r cwrs ar gael yn Gymraeg ac mae fersiwn arbennig ar gyfer Pobl Ifanc.. |
| **Budd-daliadau** | taliadau sy'n cael eu rhoi i bobl pan maen nhw'n wynebu trafferthion ariannol mewn bywyd. Benefits. |
| **Byrlymus** | bywiog, llawn bywyd. Bubbly / lively. |
| **Cheder** | gwersi sylfaenol mewn Iddewiaeth a'r iaith Hebraeg. |
| **Cyfoes** | rhywbeth sy'n perthyn i heddiw, nid y gorffennol. Modern. |
| **Cyfrifiad** | Arolwg o'r boblogaeth sy'n cael ei gynnal ym Mhrydain bob 10 mlynedd. Bydd y nesaf yn 2021. |
| **CYSAG** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol. Y cyngor ym mhob sir sy'n goruchwylio darpariaeth Addysg Grefyddol yn ysgolion y sir honno. |
| **Guru** An**gad Dev** | Yr ail o'r Deg Guru. |
| **Gurdwara** | Y deml Sikhaidd sy'n ganolbwynt i'r gymuned Sikhaidd |
| **Guru Granth Sahib** | Prif ysgrythur Sikhaeth. Mae'n cael ei ystyried fel y Guru byw terfynol a thragwyddol. |
| **Guru Nanak** | Y Guru cyntaf a sylfaenydd Sikhaeth. |
| **Gweledigaeth** | breuddwyd, rhywbeth mae person yn anelu ato. Vision. |
| **Gwireddu** | gwneud i rywbeth ddod yn realiti. To fulfil, to realise, to make it happen. |
| **Gwlad aml** | gwlad sy'n cydnabod fod lle i sawl diwylliant a ffordd o fyw. |
| **Gwlad aml** | gwlad sy'n cydnabod bod lle i sawl ffydd a chred. |
| **Iddewon Diwygiedig fwy parod i addasu a newid.** | traddodiad o fewn y grefydd Iddewig sy'n fwy parod i addasu a newid. |
| **Iddewon Uniongred** | un traddodiad o fewn y grefydd Iddewig sy'n cadw at holl reolau traddodiadol y ffydd. |

| | |
|---|---|
| **Kiddush** | seremoni Iddewig i groesawu'r Saboth. |
| **Kirat Karo** | Un o Dri Piler Sikhaeth. Mae'n golygu dilyn bywoliaeth onest er budd yr unigolyn,y teulu a'r gymuned. |
| **Kosher** | yr hyn sy'n addas i Iddewon ei fwyta. |
| **Nagar Kirtan** | Defod Sikhaidd sy'n golygu gorymdeithio trwy'r gymuned yn canu emynau. |
| **Nam Japo** | Yr olaf o'r Tri Piler. Mae'n golygu myfyrio ar enw Duw. |
| **Naws** | teimlad, blas. Feeling. |
| **Punjab** | Yr ardal yng Ngogledd India y mae Sikhiaid yn ei hawlio fel eu mamwlad. |
| **Shabbat** | dydd addoli'r Iddewon. |
| **Synagog** | adeilad ar gyfer addoliad yr Iddewon. |
| **Traddodiadol** | rhywbeth sy'n bod ers blynyddoedd lawer, hen ffasiwn. Traditional. |
| **Vand Chakko** | Yr ail o'r Tri Piler. Mae'n golygu rhannu yr hyn sydd gennych. |
| **Ymarferol** | defnyddiol, gwneud nid jyst dweud. Practical. |
| | |